Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg
# Ysgol y Gymraeg
# Prifysgol Caerdydd
# Adeilad John Percival
# Rhodfa Colum
# Caerdydd
# CF10 3EU

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/02/2015**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro ar 1 Ebrill 2006 gan Lywodraeth Cymru yn un o chwe chanolfan ranbarthol. Roedd hyn yn rhan o ail-strwythuro'r ddarpariaeth ar draws Cymru. Daeth y ganolfan yn weithredol ar 1 Awst 2007.

Mae canolfan Caerdydd a'r Fro yn rhan o Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am y ddarpariaeth Gymraeg i Oedolion ar draws awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan y rhanbarth boblogaeth o 472,300, gyda thua 11% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd ac ym Mro Morgannwg.

Mae'r ganolfan yn gyfrifol am ddarparu tua 200 o ddosbarthiadau mewn 80 o leoliadau ar draws y rhanbarth, yn ymestyn o Laneirwg i Lanilltud Fawr, ac yn cyflogi 58 o staff. Mae Prifysgol Caerdydd yn gyfrifol am 86% o'r ddarpariaeth, gyda'r gweddill yn cael ei rannu gan awdurdod Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd a'r Fro trwy gytundebau trydydd parti. Roedd oddeutu 2,500 o ymrestriadau ar gyrsiau'r ganolfan yn 2012-2013.

Ar adeg yr arolygiad, roedd cyfarwyddwr y ganolfan ar secondiad i Lywodraeth Cymru, a'r ganolfan dan ofal y cyfarwyddwr dros dro.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y ganolfan yn dda oherwydd bod:

- cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus yn cymharu'n ffafriol â rhai canolfannau eraill;
- llawer o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd cyson yn y dosbarthiadau ac yn ymroddedig i barhau â'u dysgu ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg yn eu hamser eu hunain;
- llawer o'r dysgwyr yn mynychu eu dosbarthiadau yn rheolaidd;
- ystod y cyrsiau ar gael i ddysgwyr yn eang iawn, gan gynnwys darpariaeth flaengar ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, a chyrsiau sy'n cynnwys cyfuniad o ddysgu ar lein a mynychu dosbarth;
- y rhaglen fentora a chynllun 'defnyddiwch eich iaith' yn llwyddo'n dda i helpu dysgwyr i ymarfer siarad gyda Chymry Cymraeg;
- mwyafrif y tiwtoriaid yn cynllunio sesiynau sy'n darparu cyfleoedd priodol i'r dysgwyr ymarfer defnyddio yr hyn a ddysgant yn y gwersi; a bod
- y ganolfan yn darparu gofal a chymorth effeithiol i ddysgwyr, yn enwedig dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- y ganolfan yn gweithio yn llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu'r ddarpariaeth a chynyddu cyfranogiad;
- systemau cyfathrebu a marchnata llwyddiannus wedi arwain at gynnydd arwyddocaol mewn ymrestriadau a chyfraddau cwblhau yn llwyddiannus;
- y ganolfan wedi sefydlu ystod briodol o ddulliau ar gyfer gwella ansawdd, gan roi lle blaenllaw i arolygon 'llais y dysgwr'; a bod
- y ganolfan yn elwa o fod yn rhan o Ysgol y Gymraeg y Brifysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw staff â chyfrifoldebau arwain yn gwneud defnydd digon trylwyr o ddata ar gyfer llunio adroddiadau sy'n nodi'r hyn y mae angen ei wella;
- nid yw cofnodion arsylwadau dosbarth yn ddigon treiddgar, nac yn rhoi digon o sylw i'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud yn y dosbarthiadau;
- nid yw hunanasesiad y ganolfan yn rhoi darlun digon cywir o safonau ac ansawdd y ddarpariaeth; ac
- nid yw bwrdd Ysgol y Gymraeg yn derbyn digon o wybodaeth am ansawdd a safonau i'w alluogi i weithredu'n llawn fel cyfaill beirniadol a chyfrannu i brosesau cynllunio strategol.

## Argymhellion

A1 Gwella'r cynnydd yng ngallu'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy annibynnol mewn ystod o gyd-destunau yn y dosbarthiadau

A2 Sicrhau bod tiwtoriaid yn gwneud mwy o ddefnydd o adnoddau amrywiol mewn dosbarthiadau

A3 Gwella'r defnydd o ddata i nodi agweddau lle mae angen gwelliant

A4 Gwella ansawdd cofnodion arsylwi dosbarthiadau a sicrhau bod y deilliannau yn bwydo cynlluniau gwella ansawdd

A5 Sicrhau bod yr adroddiad hunanasesu yn cynnig darlun manwl gywir a chytbwys o ansawdd a safonau

A6 Sicrhau bod bwrdd Ysgol y Gymraeg yn derbyn digon o wybodaeth am ansawdd a safonau i'w alluogi i weithredu'n llawn fel cyfaill beirniadol a chyfrannu i brosesau cynllunio strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y ganolfan.

Bydd Estyn yn gwahodd y ganolfan i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob dysgwr yn cyfranogi'n dda yn y gweithgareddau dysgu mewn dosbarthiadau, gan weithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd fel dosbarth cyfan. Maent yn dyfalbarhau wrth ymarfer y patrymau iaith a'r eirfa mewn gwaith pâr ac yn gwneud cynnydd cyson yn ystod y gwersi. Mae mwyafrif y dysgwyr yn atgyfnerthu'r cynnydd a wnânt drwy gwblhau gwaith yn eu hamser eu hunain rhwng dosbarthiadau.

Gall llawer o ddysgwyr alw i gof yn llwyddiannus yr hyn y maent wedi ei ddysgu mewn gwersi blaenorol. Maent yn defnyddio eu medrau gwrando yn briodol, gyda llawer o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd clir yn eu gallu i ynganu yn gywir. Lleiafrif o'r dysgwyr sy'n gwneud digon o ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg ar y lefel briodol yn gyson yn y dosbarthiadau, er enghraifft wrth gyfathrebu'n â'i gilydd a holi am eglurhad neu esboniad. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd yn defnyddio'r hyn y maent yn ei ddysgu mewn sefyllfaoedd llai strwythuredig. Yn yr achosion hyn, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol annibynnol a hyderus.

Ar y cyrsiau Cymraeg i'r teulu a'r gweithle, mae llawer o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol sy'n eu galluogi i wneud defnydd cynyddol o'r Gymraeg gyda'u plant neu yn y man gwaith.

Mae llawer o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ddarllen ar goedd yn ystyrlon yn sgil y gweithgareddau dysgu yn y dosbarthiadau. Mae ynganiad llawer o'r dysgwyr wrth ddarllen yn datblygu'n dda. Mae niferoedd arwyddocaol o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen ymhellach yn sgil y clybiau darllen y mae'r ganolfan yn eu cynnal, gyda hyn yn cynyddu eu hadnoddau geiriol ac atgyfnerthu eu gafael ar y Gymraeg yn sylweddol. Drwy'r cyfleoedd hyn, maent hefyd yn meithrin diddordeb mewn llyfrau Cymraeg ac yn meithrin yr arfer o ddarllen yn eu hamser eu hunain.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn Gymraeg. Ar y lefelau uwch, mae llawer o'r dysgwyr yn medru ysgrifennu darnau estynedig sy'n dangos gafael gynyddol ar ystod o batrymau brawddegol a geirfa. Mae gwaith y dysgwyr hyn yn cynnwys cyffyrddiadau diddorol, ynghyd ag ymwybyddiaeth o'r cywair priodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw dysgwyr yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu brawddegau a darnau byrion yn eu geiriau eu hunain. Mae hyn yn amharu ar eu gallu i atgyfnerthu eu gafael ar yr hyn a ddysgant yn y dosbarthiadau.

Mae tueddiadau clir o gynnydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y niferoedd ymrestriadau ar lawer o'r cyrsiau ar wahanol lefelau. O ganlyniad, mae'r ganolfan wedi llwyddo i gyrraedd llawer o'r targedau cytunedig â Llywodraeth Cymru. Er hynny, nid yw wedi llwyddo i sicrhau digon o gynnydd yn niferoedd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau dwys, nac ychwaith ar y cyrsiau ar lefel hyfedredd.

Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y niferoedd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau yn y gweithle a'r cyrsiau Cymraeg i'r teulu.

Mae'r niferoedd ymrestriadau ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr yn cymharu'n ffafriol â rhai darparwyr eraill, yn cynnwys cynnydd sylweddol yn y niferoedd o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a'r rhai sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol. O ganlyniad i'r strategaeth ehangu cyfranogiad, mae tua 60 o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau mewn ardaloedd adfywio economaidd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd arwyddocaol o tua 16 pwynt canran yn niferoedd y dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus i 74% yn 2013, sydd yn fras yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau canolfannau eraill. Mae cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus darpariaeth Cyngor Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd a'r Fro yn uchel.

**Lles: Da**

Mae'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu dosbarthiadau ac yn hapus yn eu hamgylchedd dysgu. Mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o faterion iechyd a diogelwch.

Mae bron pob dysgwr yn meddu ar agweddau cadarnhaol yn y dosbarthiadau ac yn ymroi yn egnïol i'r gweithgareddau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn mwynhau'r dysgu, ac maent yn gynhaliol i'w gilydd ac yn barod iawn i roi cymorth. Mae niferoedd arwyddocaol o'r dysgwyr yn gwneud defnydd helaeth o adnoddau ar-lein gwefan 'Y Bont' i ategu'r gwaith a wnânt yn y dosbarthiadau. Mae nifer dda o ddysgwyr yn manteisio ar raglen fentora'r ganolfan ar gyfer cynyddu eu hyder yn y defnydd o'r iaith â siaradwyr Cymraeg cynhenid.

Mae llawer o'r dysgwyr yn mynychu eu dosbarthiadau yn rheolaidd, gan hysbysu'r tiwtoriaid pan na fydd modd iddynt fynychu. Mae cyfraddau presenoldeb yn cymharu'n ffafriol â'r hyn ydynt ar gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned.

Manteisia llawer o'r dysgwyr ar y cyfleoedd i gyfrannu at 'lais y dysgwr', sy'n dylanwadu ar benderfyniadau yn ymwneud â chyrsiau a gweithgareddau lled-ffurfiol y ganolfan. O ganlyniad i'r cynrychiolwyr dosbarth, mae rhan fwyaf y dysgwyr yn teimlo bod iddynt lais yng ngweithgarwch y ganolfan, a'u bod hyn yn cael cyfrannu'n rheolaidd at ddatblygiadau yng ngwaith y ganolfan.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r ganolfan yn cynnig ystod eang o gyrsiau sy'n cynnwys amrywiaeth dda o gyfleoedd dysgu. Mae'r cyfleoedd dysgu hyn wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion y cymunedau lleol, ynghyd â chyflogwyr a rhieni. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd priodol i ddilyn cyrsiau o wahanol ddwyster ac ar wahanol adegau o'r dydd ar draws y rhanbarth.

Nodwedd flaengar o'r ddarpariaeth yw'r cyrsiau 'dysgu-cyfunol' ar amrywiaeth o lefelau, sy'n cynnig hyblygrwydd o ran cyfrwng dysgu drwy gyfuniad o fynychu dosbarth a dysgu ar lein yn y cartref neu'r gweithle. Mae'r ganolfan yn gweithio'n dda gydag ystod o gyflogwyr i drefnu cyrsiau ar gyfer anghenion penodol eu cwmnïau a'u

gweithwyr. Er enghraifft, mae'r ganolfan yn darparu cyrsiau penodol ar gyfer gyrwyr bysiau, gweithwyr yn y sector manwerthu ac ar gyfer staff yn y sector iechyd. O ganlyniad, mae bron i chwarter dysgwyr y ganolfan yn dilyn cyrsiau yn y gweithle.

Mae'r ganolfan yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd lleol a sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddarparu cyrsiau i rieni. Mae rhaglen ‘Cymraeg i’r teulu’ yn gynnwys gweithdai penodol i rieni sy’n eu galluogi nid yn unig i wella eu medrau iaith ond hefyd i helpu eu plant â medrau sylfaenol rhifedd a llythrennedd.

Gwna’r ganolfan ddefnydd effeithiol o wybodaeth ddemograffig a data am natur y boblogaeth i bennu targedau priodol i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd difreintiedig, ac ar gyfer leiafrifoedd ethnig, pobl hŷn, a dynion. Hefyd, mae'r ganolfan wedi cynnal ymchwil am anghenion dysgwyr nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt a chynnig cyrsiau penodol ar eu cyfer. Mae hyn yn arloesol.

Mae'r ganolfan yn darparu rhaglen eang o weithgareddau sy’n helpu dysgwyr i ymarfer a defnyddio eu medrau iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, ynghyd â chyfranogi mewn gweithgarwch cymdeithasol dwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys clybiau darllen a digwyddiadau cymdeithasol, ynghyd â rhaglen fentora lle mae dysgwyr yn cael eu paru â siaradwyr Cymraeg. Mae’r cynllun arloesol 'Defnyddiwch eich iaith' yn cynnig cyngor gwerthfawr i ddysgwyr ynghylch sut i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, cynigia’r ganolfan ystod dda o gyrsiau cyn-fynediad. Mae hyn yn cynnwys cwrs i gefnogwyr rygbi, cyrsiau rhagarweiniol i ddiwylliant Cymreig, ynghyd â gweithgareddau a chyrsiau ymwybyddiaeth iaith.

Er bod y ganolfan yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr sefyll arholiadau cydnabyddedig, bu gostyngiad yn nifereodd yr ymgeiswyr dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Addysgu: Da**

Mae rhan fwyaf y tiwtoriaid yn cynllunio’u gwersi yn fanwl. Maent yn llunio amcanion clir ar gyfer y gweithgareddau dysgu yn y gwersi ac yn eu rhannu gyda’r dysgwyr. Maent yn meithrin perthynas dda gyda’r dysgwyr ac yn cynnig cefnogaeth gyson iddynt mewn amgylchedd cynhaliol.

Mae gan ran fwyaf y tiwtoriaid wybodaeth gyfoes dda am ddulliau cyflwyno iaith. Mae’r mwyafrif yn paratoi dilyniant priodol o dasgau a gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae cyflymder y gwersi yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o’r gwersi, nid oes digon o gyfleoedd i’r dysgwyr ymarfer defnyddio’r eirfa a’r patrymau brawddegol y maent yn ei dysgu. Mae hyn yn effeithio ar lefelau hyder a gallu’r dysgwyr i ddefnyddio’r iaith yn fwy annibynnol mewn ystod o sefyllfaoedd. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, nid yw’r tiwtoriaid yn gwneud digon i hyrwyddo defnydd cynyddol y dysgwyr o Gymraeg achlysurol fel cyfrwng cyfathrebu â’i gilydd ac â’r tiwtor.

Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn defnyddio adnoddau dysgu yn bwrpasol er mwyn amrywio’r cyfrwng dysgu a helpu dysgwyr i atgyfnerthu eu gafael ar eirfa a chystrawennau. Fodd bynnag, yn lleiafrif y dosbarthiadau, nid yw’r tiwtoriaid yn defnyddio ystod digon eang o adnoddau ychwanegol, yn cynnwys cyfarpar technoleg

gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), hyd yn oed pan fyddant ar gael yn yr ystafelloedd dosbarth.

Mae gan y ganolfan gynllun marcio addas, gyda mwyafrif y tiwtoriaid yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn fanwl ac yn gosod targedau penodol i ddysgwyr i'w helpu i wella'u gafael ar yr iaith. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cynnig adborth cadarnhaol ac adeiladol ar lafar. Fodd bynnag, nid yw ychydig o diwtoriaid yn cywiro camgymeriadau'r dysgwyr yn gyson ac maent yn anwybyddu gwallau ynganu sylfaenol. Prin yw'r cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar eu dealltwriaeth a'u cynnydd drwy asesu cyflawniadau ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn cefnogi'r dysgu annibynnol drwy ddefnyddio'r cynlluniau dysgu unigol yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ganolfan yn darparu pecynnau croeso defnyddiol i'r dysgwyr sy'n cynnwys ystod o wybodaeth ddefnyddiol am wahanol agweddau ar ddysgu Cymraeg. Mae llawlyfr y dysgwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am iechyd a diogelwch, cod ymddygiad a gweithdrefnau cwyno. Fel rhan o'i darpariaeth dysgu lled ffurfiol, cynigia'r ganolfan ystod o weithgareddau buddiol sy'n hybu medrau cymdeithasol y dysgwyr. Maent hefyd yn hybu medrau byw yn iach, fel seiclo, cerdded ac aerobeg drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y tiwtoriaid yn ymgorffori pynciau fel bwyta'n iach a chadw'n heini yn effeithiol yn eu gwersi.

Mae gan y ganolfan drefniadau priodol ar waith i hyrwyddo presenoldeb, gyda hyn wedi arwain at gynnydd arwyddocaol o saith pwynt canran yn y gyfradd bresenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf.

Un o gryfderau'r ganolfan yw'r cymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r arweiniad i diwtoriaid ar sut i ddarparu ar eu cyfer yn y dosbarthiadau. Caiff dysgwyr gyfleoedd priodol i ddatgan anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ganolfan yn darparu cynhaliaeth effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny. Enghraifft o hyn yw'r 'daflen werdd' fel cymorth darllen i ddysgwyr â dyslecsia. Mae'r ganolfan hefyd wedi cydweithio â Chymdeithas y Deillion i gynhyrchu llyfr cwrs 'Braille' ac mae'n trefnu i ddysgwyr eraill ag anghenion gweld gael cymorth cynorthwywyr profiadol.

Drwy gyfrwng y 'clinigau iaith', mae'r ganolfan yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr dderbyn cymorth ychwanegol lle maent yn wynebu anawsterau wrth ddysgu Cymraeg. Er hynny, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon.

Mae trefniadau diogelu'r ganolfan yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Er bod tiwtoriaid wedi derbyn arweiniad buddiol ar bolisi'r ganolfan ar ddiogelu oedolion bregus, nid oes rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i staff i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ganolfan yn hyrwyddo polisi cydraddoldeb y Brifysgol yn effeithiol drwy sicrhau bod staff newydd a staff gweinyddol yn cyflawni'r modiwl ar-lein ar gydraddoldeb ac

amrywiaeth.  Llwydda’r ganolfan yn dda i gynyddu cyfranogiad dysgwyr o gefndiroedd amrywiol, gyda hyn yn cynnwys cynnig ysgoloriaethau i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a darparu cyrsiau mewn ardaloedd o amddifadedd.  Mae’r modd y gall dysgwyr dalu am eu cyrsiau mewn amrywiaeth o ffyrdd yn dyst i’r modd y mae’r ganolfan yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig.

Mae'r ganolfan yn gwneud defnydd helaeth o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhwydweithiau cymdeithasol.  Mae gwefan ‘Y Bont’ yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr am y cyrsiau y mae’r ganolfan yn eu cynnig.  Cynigia’r wefan hefyd ystod eang o adnoddau o ansawdd da ar gyfer pob lefel ieithyddol, gydag adnodd ar-lein penodol ar gyfer gweithleoedd.  Yn ogystal, mae’r wefan yn darparu cyfleoedd buddiol i hyrwyddo cyfathrebu rhyngddi a’r dysgwyr drwy’r fforymau dysgwyr a llinell gymorth ar-lein.

Llwyddodd y ganolfan i fuddsoddi’n dda mewn offer technegol a llyfrau digidol i hyrwyddo darllen ymysg dysgwyr ac mewn offer clywedol i gefnogi gwaith gwrando a deall.  Mae’r ‘app’ iaith yn adnawdd hynod o ddefnyddiol ar gyfer cyfryngau digidol gwahanol.

Mae’r rhan fwyaf o leoliadau yn cynnig amgylchedd dysgu priodol ar gyfer cynnal y dosbarthiadau.  Er hynny, prin yw’r defnydd o siartiau ac adnoddau amrywiol mewn dosbarthiadau i greu ethos ysgogol i gaffael iaith ac i ategu’r dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir i waith y ganolfan, ac mae arweinwyr yn rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda’i phartneriaid.  Mae arweinwyr yn gwrando ac yn ymateb yn ofalus i sylwadau’r holl randdeiliaid, a hefyd yn cymryd camau priodol mewn ymateb i faterion yn deillio o ‘lais y dysgwr’.  Mae nifer o fentrau dros gyfnod sydd wedi cael effaith glir ar ystod ac ansawdd y ddarpariaeth, yn cynnwys ehangu cyfranogiad a gwella cyfraddau cwblhau cyrsiau yn llwyddiannus.

Mae gan y ganolfan strwythur rheolaeth clir a chadarn ac mae cyfrifoldebau ar gyfer arwain agweddau ar y ddarpariaeth wedi eu rhannu’n briodol rhwng aelodau’r staff canolog.  O ganlyniad i’r systemau cyfathrebu a marchnata llwyddiannus, mae dysgwyr yn ymwybodol o holl weithgareddau allgyrsiol ac adnoddau e-ddysgu’r ganolfan a bu twf arwyddocaol yn y ddarpariaeth o ran cyrsiau gweithle.  Mae gan y ganolfan bresenoldeb amlwg ar y we a defnyddia’r rhwydweithiau cymdeithasol yn llwyddiannus i gyfathrebu gyda dysgwyr y rhanbarth.

Mae cynllun strategol y ganolfan yn cynnwys amcanion clir ac yn gwneud defnydd o dargedau meintiol priodol.  Mae’r cynllun yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol ym maes Cymraeg i oedolion.  Fodd bynnag, nid yw’r ganolfan yn ddigon hunan feirniadol ynglŷn ag agweddau pwysig ar y ddarpariaeth.  O ganlyniad, nid oes darlun digon clir gan y ganolfan o’r gwelliannau sydd angen eu gwneud er mwyn gwireddu ei gweledigaeth yn llawn.

Mae staff uwch y Brifysgol yn cyfarfod yn rheolaidd gyda rheolwyr y ganolfan ac yn gefnogol iawn i'w gwaith.  Fodd bynnag, nid yw'r ganolfan yn llunio adroddiadau ansawdd digon manwl ar gyfer y Brifysgol.  Mae hyn yn llesteirio gallu staff uwch i weithredu'n llawn fel cyfeillion beirniadol effeithiol.

Fel rhan o Ysgol y Gymraeg, mae'r ganolfan yn flaengar ym maes ymchwil i agweddau ar Gymraeg i Oedolion.  Mae'n sicrhau bod y deilliannau yn cael eu hymgorffori mewn sesiynau hyfforddi tiwtoriaid ac yn cael eu lledaenu ar lefel genedlaethol.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Mae gan y ganolfan systemau a gweithdrefnau addas i fonitro ei pherfformiad sy'n cynnwys cylch gwella ansawdd pwrpasol.  Caiff y cylch gwella ansawdd ei integreiddio'n dda gyda chylchoedd cynllunio strategol eraill y ganolfan.

Mae'r gweithgareddau gwella ansawdd yn cynnwys defnyddio ystod briodol o dystiolaeth ystod addas, sydd yn cynnwys rhaglen o arsylwadau dosbarth ar draws y rhanbarth.  Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r cofnodion yn deillio o'r arsylwadau dosbarth yn rhy hael.  Mewn nifer o enghreifftiau, nid yw tystiolaeth arsylwadau yn cefnogi'r barnau sy'n cael eu pennu yn ddigon clir nac yn talu digon o sylw i ddeilliannau a chynnydd dysgwyr yn y medrau iaith mewn dosbarthiadau.  Er bod arweinwyr yn gwneud dadansoddiadau data, nid ydynt yn llunio adroddiadau manwl a chytbwys am berfformiad y ganolfan nac yn mesur effaith systemau er mwyn nodi'r hyn sydd angen ei wella.

Gwna'r ganolfan ddefnydd helaeth o holiaduron a chyfarfodydd dysgwyr i gasglu barnau'r dysgwyr.  Mae hyn yn gryfder yn y trefniadau gwella ansawdd, ac yn arwain at gamau dilynol priodol mewn ymateb i faterion sy'n codi.  Mae'r ganolfan wedi trefnu bod cynrychiolwyr dosbarth ar gael ym mhob cwrs ac mae cyfarfodydd rheolaidd rhyngddynt â staff y ganolfan.

Yn gyffredinol, mae adroddiad hunanasesu'r ganolfan yn ddogfen gynhwysfawr ac arfarnol sy'n cynnwys blaenoriaethau datblygu clir.  Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodebau defnyddiol o'r cryfderau, ynghyd â rhestr o feysydd i'w datblygu.  Serch hynny, nid oes cyfatebiaeth ddigon agos rhwng barnau'r hunanasesiad a barnau'r tîm arolygu, yn enwedig yn safon yn addysgu ac effeithiolrwydd trefniadau gwella ansawdd y ganolfan.

Mae cynllun datblygu ansawdd y ganolfan yn ddogfen gynhwysfawr sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r broses hunanarfarnu.  Mae cyswllt amlwg rhwng agweddau i'w datblygu yn yr adroddiad hunanasesu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ansawdd.  Ar y cyfan, mae'r cynllun datblygu ansawdd yn cynnwys targedau meintiol a graddfeydd amser priodol ar gyfer gweithredu'r bwriadau.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ganolfan a'i phartneriaid yn cydgynllunio'r ddarpariaeth yn ofalus mewn cyfnod ariannol anodd.  O ganlyniad, maent yn sicrhau bod ystod lawn o gyrsiau ar gael ar draws y rhanbarth ac nad oes unrhyw ddyblygu diangen.  Mae'r partneriaid yn gefnogol i waith y ganolfan.

Mae’r ganolfan wedi sefydlu strwythurau priodol er mwyn sicrhau ansawdd ar y cyd yn effeithiol gyda phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned lleol, yn enwedig y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhanbarth. Mae trefniant buddiol ar waith lle mae’r ganolfan yn defnyddio un o staff ei phartneriaid fel cyfaill beirniadol wrth lunio’r adroddiad hunanarfarnu ar gyfer sicrhau ansawdd.

Cydweithia’r ganolfan yn effeithiol gyda phartneriaid i rannu adnoddau, er enghraifft, lleoliadau dysgu a chyfarfod, darpariaeth ofal plant a chydgynllunio ar gyfer hwb newydd Cymraeg i Oedolion canol y ddinas. Mae wedi cydweithio yn effeithiol hefyd gyda phartneriaid dysgu oedolion yn y gymuned i wella cyfleusterau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ychydig o leoliadau dysgu.

Drwy gydweithio gyda chanolfan gymunedol Glan yr Afon fel rhan o ‘Cymunedau’n Gyntaf’ a’r Friary mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, mae’r ganolfan wedi profi llwyddiant yn cynyddu niferoedd y dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae cysylltiadau da gan y ganolfan gyda’r gymuned leol trwy fenter iaith Caerdydd a menter y Fro, a gyda’r sector gwirfoddol trwy’r partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. Trwy gydweithio gyda 30 o sefydliadau a chwmnïoedd, yn cynnwys y sector preifat, mae’r ganolfan wedi llwyddo i sefydlu darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle eang.

Mae'r ganolfan yn gweithio’n llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd gyda Llywodraeth Cymru a’r Cyngor Prydeinig i ddarparu rhaglen flaengar ar gyfer dysgu Cymraeg i oedolion ym Mhatagonia.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r rhan fwyaf o staff y ganolfan yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol. Mae’r modd y mae’r ganolfan yn defnyddio tiwtoriaid o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn gwneud cyfraniad sylweddol at gynyddu cyfranogiad ymhlith y grwpiau hynny.

Mae’r ganolfan yn cynllunio rhaglen hyfforddiant staff addas yn dymhorol, wedi ei seilio ar wybodaeth sydd wedi ei chywain drwy arsylwadau dosbarth a chyfarfodydd adolygu perfformiad staff. Cynigia’r ganolfan gefnogaeth dda i diwtoriaid, yn cynnwys cyfarfodydd wythnosol unigol i bob tiwtor sy’n arwain at ddarparu hyfforddiant yn ôl yr angen. Mae staff hefyd yn derbyn cyfleoedd buddiol i fynychu sesiynau hyfforddiant allanol, er enghraifft cynhadledd ryngwladol ar ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cynigia’r ganolfan gymorth ariannol defnyddiol ar gyfer dysgwyr yn ôl yr angen, gan gynnwys y defnydd o’r gronfa arian wrth gefn ac ysgoloriaethau. Mae’r staff cymorth yn cynnig cefnogaeth dda i gydweithwyr ac mae ail-strwythuro wedi arwain at gydweithio effeithiol rhwng staff gweinyddol y ganolfan a staff yr ysgol academaidd. Yn sgil yr ad-drefnu hwn, llwyddodd y ganolfan i ddiogelu swyddi gwasanaethau cymorth proffesiynol yn sgil toriadau yn y gyllideb.

Mae’r ganolfan yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Mae’r sylwebaeth isod yn seiliedig ar ganlyniadau ail arolwg blynyddol Llais y Dysgwr Cymru, a gynhaliwyd ym mis Ionawr - Chwefror 2014 gan Ipsos MORI. Comisiynwyd yr arolwg gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd yr holiadur gan gyfanswm o 2,257 yn y sector Cymraeg i Oedolion ar draws Cymru, gan gynnwys 182 o ddysgwyr o Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a’r Fro.

Mae lefelau boddhad dysgwyr y ganolfan yn arwyddocaol is na’r meincnodau ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion ym mron pob cwestiwn.

Mae 79% o ddysgwyr o’r farn bod y ddarpariaeth yn dda neu dda iawn o gymharu ag 87% ar draws y sector. Nododd 83% bod y cwrs yr hyn oeddent yn ei ddisgwyl neu well, o gymharu â 92% ar draws y sector.

Mae 72% o ddysgwyr yn barnu bod iechyd a lles yn dda iawn, sydd yn cyfateb i ffigwr y sector. Nododd 43% o’r dysgwyr bod help a chefnogaeth yn dda iawn, o’i gymharu â 53% yn y sector. Nododd 40% o ddysgwyr y ganolfan bod atebolrwydd yn dda iawn, o’i gymharu â ffigwr y sector o 51%. Mae 57% yn barnu bod addysgu a hyfforddi yn dda iawn, o gymharu â 67% yn y sector yn gyffredinol. Mae 28% o’r farn bod y wybodaeth a chyngor a dderbyniant yn dda iawn, o’i gymharu â 40% yn y sector.

# Adroddiad cryno ar foddhad dysgwyr


## Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg



Mae'r adroddiad hwn yn dangos crynodeb o ganlyniadau o ail arolwg blynyddol Llais y Dysgwr Cymru, a gynhaliwyd ym mis Ionawr - Chwefror 2014. Mae cyfanswm o 66,899 o ddysgwyr ledled Cymru wedi cymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys 182 o ddysgwyr o Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg.

**C8. Rhowch farn ar eich darparwr yn gyffredinol?**

**C9. A yw'r cwrs hwn fel roeddech chi'n ei ddisgwyl?**





Ipsos MORI Social Research Institute

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2014. Cynhaliwyd y gwaith maes 6 Ionawr – 21 Chwefror 2014. Sylfaen ar gyfer C8 182; C9 182.

# Dadansoddiad o foddhad dysgwyr



**Caiff y sgoriau cyfansawdd hyn eu cyfrifo drwy gyfuno'r atebion a'r prif themâu yn yr arolwg**




**Meincnod % 'da iawn'**

| | Eich sgôr | CIO |
|---|---|---|
| Gwybodaeth a chyngor | 28 | 40 |
| Help a chefnogaeth | 43 | 53 |
| Iechyd a lles | 72 | 72 |
| Ymatebolrwydd | 40 | 51 |
| Addysgu a hyfforddi | 57 | 67 |

Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2014. Cynhaliwyd y gwaith maes 6 Ionawr – 21 Chwefror 2014.
Mae cyfanswm o 66,899 wedi cymryd rhan yn yr arolwg, gan gynnwys dysgwyr addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion. Mae cyfanswm o 182 wedi cymryd rhan o Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae maint y sylfaen wedi'i 'phwysoli' ar gyfer pob sgôr gyfansawdd yn cael ei ddangos mewn cromfachau. Er hwylustod darllen, ni ddangosir ffigurau o dan 2% ar y siart.

Ipsos MORI Social Research Institute

## Atodiad 2

Yn 2013, ymrestrodd 2,478 o ddysgwyr ar gyrsiau Cymraeg i oedolion y ganolfan. Dros gyfnod, bu patrwm o gynnydd clir yn y niferodd ymrestriadau, gyda'r tueddiad hwn yn cael ei adlewyrchu ar lawer o'r cyrsiau ar wahanol lefelau. O ganlyniad, mae'r ganolfan wedi llwyddo i gyrraedd llawer o'r targedau cytunedig â Llywodraeth Cymru. Er bod niferoedd ymrestriadau ar y cyrsiau dwys wedi cynyddu i 438 yn 2013, ni fu patrwm cyson o dwf yn y niferoedd dros gyfnod. O ganlyniad, nid yw'r ganolfan wedi cyrraedd y targedau ar gyfer y ddarpariaeth ddwys, nac ychwaith ar lefel hyfedredd.

Yn 2013, roedd 424 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau yn y gweithle. Er bod y nifer yn is na'r flwyddyn flaenorol, bu cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Bu cynnydd clir hefyd yn y niferoedd dysgwyr yn dilyn cyrsiau Cymraeg i'r teulu.

Mae'r niferoedd ymrestriadau ymhlith grwpiau penodol o ddysgwyr yn cymharu'n ffafriol â rhai darparwyr eraill, yn cynnwys cynnydd sylweddol yn y niferoedd o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a'r rhai sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol. O ganlyniad i'r strategaeth cynyddu cyfranogiad lwyddiannus, mae cyfanswm o tua 60 o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau mewn ardaloedd adfywio economaidd.

Bu cynnydd o 67% i 83% yn y cyfraddau cwblhau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfraddau cwblhau yn gadarnhaol ar gyrsiau Cymraeg i'r teulu. Dros y tair blynedd o 2010 i 2013, mae'r cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus y ganolfan wedi codi o 58% i 74%. Bu cynnydd yn y cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus ar bob lefel ac eithrio'r cyrsiau cyn-mynediad. Llwyddodd 86% o ddysgwyr i gwblhau eu cyrsiau yn nosbarthiadau Cyngor Bro Morgannwg ac yn nosbarthiadau Coleg Caerdydd a'r Fro.

Llwyddodd 71% o ddysgwyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig i gwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus.

Mae niferoedd y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2013, safodd cyfanswm o 95 o ddysgwyr yr arholiadau. Mae canlyniadau dysgwyr y ganolfan yn gyffredinol yn debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Ann Jones | Arolygydd Tîm |
| Liam Kealy | Arolygydd Tîm |
| Gwenllian Morgan | Arolygydd Tîm |
| Sylfia Fisher | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catherine Stephens | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Morse | Arolygydd Cymheiriaid |
| Carys Swain | Arolygydd Cymheiriaid |
| Adrian Price | Enwebai |